Disclosure &
Barring Service

# Siarter Diogelu ac Ansawdd

## Gwneud Recriwtio yn Fwy Diogel

Siarter Diogelu ac Ansawdd

# Pwrpas

Disclosure & Barring Service

Gweledigaeth a phwrpas y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) yw gwneud recriwtio yn fwy diogel trwy fod yn sefydliad gweladwy, dibynadwy a dylanwadol, gan ddarparu gwasanaeth o ansawdd rhagorol i'n holl gwsmeriaid a phartneriaid, lle mae ein pobl yn deall y cyfraniadau diogelu pwysig y maent yn eu gwneud ac yn teimlo'n falch o weithio yma.

Tanlinellodd cyd-greu strategaeth 2020-25 DBS yr awydd a'r ysfa i sicrhau ein bod yn cael ein cydnabod ac yn perfformio fel sefydliad diogelu. Mae'r nod i barhau i ddatblygu a ffynnu, a darparu gwasanaethau o'r ansawdd a'r safon uchaf, wedi'i fynegi'n glir yn ein strategaeth fel y ffordd y byddwn yn gwella ein cyfraniad at yr agenda ddiogelu genedlaethol.

Mae'r siarter hon yn nodi sut mae'r DBS wedi ymrwymo i ddiogelu trwy ddarparu gwasanaeth o safon. Mae'n disgrifio'r dyhead i ddiogelu ac ansawdd ddod yn nodwedd wirioneddol ac adnabyddadwy o'r diwylliant DBS sy'n ymestyn o'r llawr i'r bwrdd, wedi'i alinio â naratif Rhagoriaeth a fframwaith sicrhau ansawdd DBS.

Byddwn yn gwybod ein bod wedi cyflawni'r dyheadau a'r ymrwymiad a nodir yn y siarter hon pan fydd pob un o "ein pobl yn deall y cyfraniadau diogelu pwysig maent yn eu gwneud".

Siarter Diogelu
ac Ansawdd

# Gweledigaeth ar gyfer diogelu:

Disclosure &
Barring Service



Mae'r siarter Diogelu ac Ansawdd yn cefnogi cyflawni, ac yn canolbwyntio ar ganlyniadau ar gyfer, ein holl amcanion strategol, gan gynnal yr athroniaeth OneDBS.

Rydym am i'n pobl ddeall y cysylltiad rhwng darparu gwasanaeth hygyrch a chynhwysol o ansawdd uchel i'n cwsmeriaid a'r cyfraniad y mae hynny'n ei wneud i'r agenda ddiogelu genedlaethol.

Rydym am i'n pobl gydnabod y cyfraniad diogelu pwysig maent yn ei wneud trwy ddysgu, datblygu a gwella a thrwy glywed hyn yn cael ei fynegi felly gan arweinwyr trwy gydol y sefydliad.

Rydym am i'n partneriaid ein cydnabod fel sefydliad diogelu gyda chyfraniad gwerthfawr ac unigryw i'w chwarae yn y naratif diogelu cenedlaethol a rhyngwladol, yn arbennig ynghylch y cylch bywyd recriwtio/cyflogaeth.

Rydym am i'n partneriaid ein cydnabod fel partner diogelu gwerthfawr a dibynadwy sy'n parhau i gael ei ystyried yn hyblyg, yn ymatebol ac yn ffynhonnell arbenigedd diogelu.

Siarter Diogelu ac Ansawdd

# Diffiniadau yng nghyd-destun y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd:

Disclosure & Barring Service

### Diogelu:

• Atal y rhai sy'n peri risg i grwpiau sy'n agored i niwed rhag gweithio mewn rolau penodol

• Amddiffyn y cyhoedd trwy helpu cyflogwyr i wneud penderfyniadau recriwtio mwy diogel

• Amddiffyn y cyhoedd trwy ddod â chyfraniad arbenigol i'r ddadl ddiogelu ehangach

• Hyrwyddo a diogelu lles a hawliau grwpiau sy'n agored i niwed

• Hyrwyddo a diogelu rhyddid sifil a lleihau baich ymyrraeth ym mywydau unigolion

### Ansawdd:

I ba raddau y mae ein gwasanaethau a'n cynhyrchion yn diwallu neu'n rhagori ar anghenion:

• Ein cwsmeriaid a'n partneriaid sy'n defnyddio ein gwybodaeth a'n gwasanaethau i wneud asesiadau risg diogelu

• Y cyhoedd y mae ein sefydliad yn bodoli i'w hamddiffyn

### Diogelu a chanolbwyntio ar ansawdd:

Bydd sicrhau ansawdd yn canolbwyntio ar brofiadau, cynnydd a chanlyniadau ein cwsmeriaid a'n partneriaid a'r effaith a gawn ar ein cyd-gyfrifoldeb i amddiffyn y cyhoedd.

Siarter Diogelu
ac Ansawdd

# Wrth gyflawni ein hymrwymiad diogelu ac ansawdd byddwn yn:

Disclosure & Barring Service

**Ceisio** ymgysylltu â phoblogaeth amrywiol gan gynnwys y rhai sy'n buddio o'n gwasanaethau a'n cynhyrchion, yn ogystal â'r rhai sy'n eu defnyddio

**Dylanwadu** trwy lywio ac arwain y ddadl ddiogelu ehangach trwy ein proffil sefydliadol, ein gwybodaeth a'n harbenigedd

**Bodloni** ac ymdrechu i ragori ar ddisgwyliadau partneriaid o ran argymhellion, amserlenni, a pherfformiad wrth gydnabod sut mae hyn yn effeithio ar ein gallu, a gallu ein partneriaid, i ddiogelu'r cyhoedd

**Arddangos** sut mae ein blaenoriaethau a'n cynllunio strategol, busnes ac ariannol yn cael eu llywio gan ein pwrpas i amddiffyn y cyhoedd, a'i wreiddio ynddo, trwy helpu cyflogwyr i wneud penderfyniadau recriwtio mwy diogel

**Meithrin** diwylliant sefydliadol lle mae ansawdd yn cael ei fesur yn ôl ein gallu i ddiogelu yn anad dim

**Blaenoriaethu** gweithgareddau sydd yn gwella ein gallu i ddiogelu grwpiau sy'n agored i niwed, diogelu rhyddid sifil unigol a hyrwyddo gallu cyflogwyr i amddiffyn y cyhoedd

**Herio** gweithgareddau sy'n tanseilio ein hymrwymiad i ddiogelu ac ansawdd, yn fewnol ac yn allanol

**Canolbwyntio** gweithgareddau sicrhau ansawdd ar y cwsmer a'r partner, a'r effaith a gawn ar ein cyd-gyfrifoldeb i amddiffyn y cyhoedd

**Myfyrio** ar ein gwaith a dysgu ar y cyd, gan gynnwys dysgu o wallau a phrofiad, a sicrhau dolen adborth fel y modd yr ydym yn diffinio 'arfer da DBS'

**Mynegi** ac arddangos yr hyn a wyddom am ansawdd ac effaith swyddogaethau DBS ar ein cwsmeriaid, a sut mae ein trefniadau yn cynyddu diogelwch y cyhoedd gan gynnwys plant, oedolion sy'n agored i niwed, a'r cyhoedd yn ehangach

**Cyfathrebu** ein hymrwymiad diogelu a'n huchelgais i gyrraedd poblogaeth eang ac amrywiol mewn modd sy'n croesawu cynwysoldeb a chydraddoldeb

Disclosure & Barring Service

**Dysgu mwy am DBS**

Ewch i'n gwefan yn: www.gov.uk/dbs

Dod o hyd i ni ar ein platfformau cyfryngau cymdeithasol amrywiol:

Twitter: @DBSgovuk
Facebook: @DBSgovuk
LinkedIn: Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)
YouTube: Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd

Cysylltu â ni:

Lerpwl
BLWCH 165, L3 1QY